RNIB
Cymru
Golwg gwahanol
See differently

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Olwg

## Cofnodion: 14 Gorffennaf 2020

## Cyfarfod rhithwir

## 12.15 - 13.15

### Yn bresennol:

**Cadeirydd:** Dr Dai Lloyd AS

**Yn bresennol:**

Dr Dai Lloyd AS (Cadeirydd)
Darren Price (aelod o staff Dai Lloyd)
Ansley Workman, RNIB
Nathan Owen, RNIB
Heledd Williams, RNIB
Ryland Doyle (aelod o staff Mike Hedges)
Esther Weller, Sight Cymru
Eryl Williams, Cymdeithas Glaucoma
Fiona Jenkins, Cadeirydd y Grŵp Llywio Cenedlaethol Iechyd Llygaid
Craige Wilson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Heather Waterman, Prifysgol Caerdydd
Tafsila Khan, gwirfoddolwr i'r RNIB
Sarah Hughes, Cymdeithas Addysgwyr Nam ar y Golwg Cymru
John Dixon, RNIB
Liz Price, Coleg Brenhinol yr Offthalmolegyddion
Peter Jones, Cŵn Tywys Cymru
Rebecca Colclough, RNIB
Olivia Shorrocks, Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal wedi'i

Gynllunio
Rhiannon Clarke, Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio
Bablin Molik, Sight Cymru
Adele Francis, Cymdeithas Macwlaidd

**Ymddiheuriadau:**

David O'Sullivan, Prif Gynghorydd Optometrig
Sarah O'Sullivan-Adams, Llywodraeth Cymru
Sarah Hughes, SENCOM
Karen Phillips, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Jonathan Mudd, Cŵn Tywys
Andrea Gordon, Cŵn Tywys
Owen Williams, Wales Council for the Blind
Sali Davies, Optometreg Cymru
Callum Hughes, Conffederasiwn GIG Cymru
Ian Moran, Fforwm Swyddogion Adsefydlu

# 1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd Dr Dai Lloyd AS bawb i'r cyfarfod, gan wahodd y rhai a oedd yn bresennol i gyflwyno'u hunain.

# 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, y wybodaeth ddiweddaraf ac adolygu'r ymateb gweinidogol

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar un newid gramadegol.
Nodwyd bod y cyfarfod â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod yr adroddiad 'In the Line of Sight' wedi'i ohorio oherwydd y coronafeirws. Nid yw'r adroddiad wedi'i lansio eto oherwydd y sefyllfa bresennol.

Nododd Fiona Jenkins fod y Gweinidog wedi cytuno wythnos diwethaf i ddarparu cyllid i fwrw ymlaen â'r gwaith ar y rhaglen ddigideiddio gofal llygaid. Mae byrddau iechyd wedi cael gwybod y byddant yn cael cyllid cyn bo hir a byddant yn datblygu cynlluniau i weithredu'r system yn ystod y flwyddyn nesaf.

# 3. Crynodeb o'r prif faterion sy'n effeithio ar bobl ddall a rhannol ddall o ganlyniad i bandemig y

## coronafeirws. Cyflwyniad gan Nathan Owen, RNIB Cymru

Yn ddiweddar, mae'r Grŵp Trawsbleidiol wedi canolbwyntio ar offthalmoleg a gwasanaethau gofal llygaid. Bydd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar effaith y pandemig ar bobl ddall a rhannol ddall. Mae'r effaith hon wedi dwysau llawer o'r anghydraddoldebau presennol y mae pobl ddall a rhannol ddall eisoes yn eu hwynebu.

Enghraifft allweddol o hyn yw mynediad at wybodaeth mewn fformat hygyrch. Yn gynnar yn ystod yr argyfwng, nid oedd llawer o'r cyfathrebiadau hanfodol gan ffynonellau swyddogol yn hygyrch i bobl sydd wedi colli eu golwg. Er enghraifft, yn aml nid oedd y fideos a delweddau a gyflwynwyd yn addas ar gyfer offer darllen sgrîn. Cafodd llawer o waith adweithiol ei wneud yn gynnar yn ystod yr argyfwng gan y sector sy'n cefnogi pobl sydd â nam ar eu golwg i godi'r materion hyn gyda Llywodraeth Cymru, tîm cyfathrebu'r GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Er yr oedd yr ymateb yn gadarnhaol yn gyffredinol, mae'r ffaith y bu'n rhaid i sefydliadau yn y sector perthnasol godi'r Materion hyn yn amlygu mater ehangach, sef bod nifer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn parhau i fethu â chyfathrebu a chyflwyno gwybodaeth mewn modd hygyrch.

Er enghraifft, nodwyd nad oes gan pobl sydd wedi colli eu golwg fynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i benderfynu a ddylent fynd i'w hapwyntiadau gofal llygaid. Nodwyd bod nifer y bobl sy'n mynd i apwyntiadau brys sy'n gallu achub golwg wedi gostwng yn sylweddol. Lluniodd RNIB Cymru gyfres o fideos i rannu gwybodaeth am ddarpariaeth o ran gofal llygaid ac i roi sicrwydd i bobl fod mynd i apwyntiadau sy'n gallu achub golwg yn ddiogel. Roedd yn bwysig nad oedd pobl sy'n wynebu colli golwg yn ddiangen yn dewis peidio â mynd i apwyntiadau oherwydd diffyg gwybodaeth.

Yn ogystal â dwysau materion sydd eisoes yn bodoli, mae'r pandemig hefyd wedi cyflwyno ystod o heriau newydd, yn bennaf oll cadw pellter cymdeithasol, sydd bron yn amhosibl i bobl sydd wedi colli eu golwg. Mae cadw pellter cymdeithasol yn gysyniad gweledol. Nid yw pobl sydd wedi colli eu golwg yn gallu gweld arwyddion fel saethau ar loriau ac arwyddion sydd wedi'u gosod o amgylch archfarchnadoedd a strydoedd. Hefyd, nid yw cŵn tywys wedi'u hyfforddi i gadw pellter

cymdeithasol. Nid yw pobl sy’n defnyddio ffyn yn gallu gweld y trefniadau newydd ar heolydd, fel conau a llinellau wedi’u paentio. Mewn sawl ffordd, mae’r mesurau newydd ar gyfer cadw pellter cymdeithasol wedi creu ystorm berffaith i bobl sydd wedi colli eu golwg.

Un o’r ffyrdd y daeth y mater hwn i’r amlwg yn gynnar yn ystod yr argyfwng oedd mewn perthynas â’r gallu i siopa am fwyd. Diolchodd Nathan i Dai Lloyd am ei waith i godi’r mater hwn yn y Senedd ac yn y cyfryngau.

Cynyddodd y galw am siopa ar-lein yn sylweddol a dim ond y bobl oedd yn y categori gwarchod oedd yn gallu cael mynediad at slotiau dosbarthu wedi’u blaenoriaethu. Er ei bod yn hollol gywir blaenoriaethu’r bobl sydd fwyaf bregus yn glinigol, roedd pobl ddall yn fregus o ganlyniad i’r sefyllfa hon hefyd, a hynny am resymau nad oeddent yn glinigol, gan olygu nad oeddent, i bob pwrpas, yn gallu byw bywydau annibynnol.

Nodwyd bod yr RNIB yn Lloegr wedi llwyddo i gytuno ar ddatrysiad gyda’r Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), sef gwasanaeth cyfeirio uniongyrchol i bobl sydd wedi colli eu golwg er mwyn iddynt gael eu blaenoriaethu wrth siopa. Mae’r galw wedi gostwng ers i gyfyngiadau’r cyfnod cloi gael eu llacio, ond mae camau i gadw pellter cymdeithasol yn debygol o fod yn weithredol am y gryn amser, ac mae’n bosibl y byddwn yn wynebu cyfnod cloi arall yn y gaeaf. Nid oes datrysiad i’r mater hwn eto.

Un o’r materion pennaf sy’n wynebu pobl ddall a phobl rannol ddall wrth i gyfyngiadau’r cyfnod cloi gael eu llacio yw’r newidiadau i drafnidiaeth a threfn strydoedd. Ym mis Mai, galwodd Llywodraeth Cymru am fynegiadau o ddiddordeb gan awdurdodau lleol o ran sut yr oedd modd iddynt wneud newidiadau i annog teithio llesol a theithio mwy gwyrdd, tra’n galluogi teithwyr i gadw pellter cymdeithasol.

Dechreuwyd ar y newidiadau bron yn syth, a oedd yn aml yn hollol anhygyrch i bobl sydd wedi colli eu golwg. Roedd newidiadau fel lledaenu palmentydd gan ddefnyddio conau yn golygu bod cerddwyr a beicwyr yn rhannu’r un gofod. Mae arwyddion wedi’u gosod ar balmentydd sy’n creu rhwystrau ac sy’n gallu achosi i bobl faglu. Mae’r trefniadau newydd hyn yn peri llawer o heriau i bobl sydd wedi colli eu golwg. Rydym wedi clywed am bobl yn drysu, yn colli hyder wrth fynd allan, yn gwrthdaro â beiciau ac ati.

Fel rhan o'r strategaeth adfer yn y tymor hwy, mae systemau unffordd i gerddwyr, seilwaith feicio a mannau ychwanegol ar gyfer lletygarwch yn cael eu cyflwyno. Mae cyflymdra gweithredu'r mesurau hyn, yn ogystal â'r diffyg asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, yn golygu bod hygyrchedd yn cael llai o flaenoriaeth, gan olygu bod pobl sydd wedi colli eu golwg wedi'u hallgau o fannau cyhoeddus. Bydd y sefyllfa hon yn parhau am gryn amser, ac os nad ydym yn mynd i'r afael â hi, bydd pobl anabl yn parhau i gael eu hallgau o gymdeithas.

Gofynnodd Dai i Tafsila siarad am ei phrofiad yn ystod y cyfnod cloi fel person sydd wedi colli ei olwg, cyn agor y drafodaeth.

## Profiad o fyw fel person sydd wedi colli ei olwg yn ystod y cyfnod cloi

Cyflwyniad gan Tafsila Khan

Nododd Tafsila ei bod hi hyd yn ddiweddar wedi bod yn hyderus wrth ddefnyddio ffon, gan fynd i mewn i Gaerdydd yn rheolaidd a mynd i siopa'n annibynnol. Ers i gyfyngiadau'r cyfnod cloi gael eu llacio, mae hyn wedi bod yn anoddach. Mae aelodau'r teulu wedi gorfod rhoi gwybod i Tafsila sut mae pethau wedi newid wrth i ragor o lefydd ddechrau ailagor. Er bod canol y ddinas wedi bod yn llai prysur, nid yw'n rhwydd cadw pellter o 2 fetr.

Nododd Tafsila fod ffon yn ddangosydd defnyddiol i bobl eraill fod ganddi nam ar ei golwg, ond nid yw'r un peth yn wir am bobl eraill sydd â nam ar eu golwg nad ydynt yn defnyddio ffon nac yn cael eu tywys gan gi tywys, felly mae'n debygol na fyddai pobl yn gwybod bod angen gadw pellter o 2 fetr.

Amlinellodd Tafsila achlysur pan ddaeth ar draws ramp annisgwyl nad oedd yno y tro diwethaf yr aeth hi i ganol y ddinas. Nid oedd hi'n gwybod a oedd hawl ganddi i fynd dros y ramp neu at ba ddiben y gosodwyd y ramp yn y lle cyntaf. Mae'r math hwn o newid yn ei gwneud yn anoddach iddi fynd i lefydd ar ei phen ei hun, felly mae hi bellach yn gorfod gofyn i rywun arall fynd gyda hi oherwydd ni yw hi'n teimlo'n hyderus o ran gwybod i le y gall hi fynd.

Mae cynnydd yn nifer y byrddau a'r cadeiriau allan ar y strydoedd wedi peri pryder hefyd, oherwydd mae'n amhosibl gwybod lle maen nhw wedi'u gosod.

Mae hi wedi bod yn anodd cael mynediad at wybodaeth ar ffurf hygyrch.

Nid yw arwyddion cadw pellter cymdeithasol ar loriau siopau a phalmentydd yn weladwy i ddefnyddwyr ffyn.

Mae hyn wedi effeithio'n sylweddol ar allu Tafsila i fynd allan yn annibynnol. Nid yw hi'n mynd i'r swyddfa bost mwyach oherwydd nid yw'n gyfarwydd â chynllun yr adeilad. Mae'n bosibl y bydd pobl yn gweiddi cyfarwyddiadau, sy'n gallu achosi dryswch neu wrthdaro.

Mae materion newydd yn codi, fel dod o hyd i hylif diheintio dwylo mewn siopau, a'r pryder y mae gorfod defnyddio'ch dwylo i ddod o hyd i eitemau yn ei achosi.
Gorffennodd Tafsila ei chyflwyniad drwy ddatgan bod rhai o'r pryderon a'r ofnau hyn yn cael eu hachosi gan y ffaith nad yw hi'n gwybod beth y bydd hi'n dod ar ei draws a sut y bydd pobl eraill yn ymateb. Mae hyn wedi cael effaith andwyol ar ei hyder.

Diolchodd Dai Lloyd i Tafsila am ei chyflwyniad grymus ar realiti dyddiol o fyw o dan y cyfyngiadau presennol a'r ffaith nad oes llawer, os o gwbl, o ystyriaeth wedi'i rhoi i bobl ddall a rhannol ddall, yn enwedig o ran cadw pellter cymdeithasol ac arwyddion.

**Cam gweithredu:** Bydd Dai Lloyd, fel Cadeirydd y grŵp, yn ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol i drafod y materion hyn.

Rhoddodd Ansley wybod i'r grŵp fod Mark, a oedd fod i drafod ei brofiadau, wedi methu ag ymuno â'r cyfarfod oherwydd problemau technegol.

# 4. Trafodaeth ac unrhyw fusnes arall

## Rhieni a phlant â nam ar eu golwg

Cyfeiriodd Sarah Hughes at y cyflwyniad, gan nodi ei fod yn cyd-fynd â'r adborth y maen nhw wedi'i gael gan y teuluoedd y maen nhw'n gweithio gyda hwy. Mae ymdeimlad o gael eu gadael ar eu holau yn gyffredin ymhlith teuluoedd. Mae llawer o'u gwaith presennol wedi canolbwyntio ar lesiant teuluoedd ar adeg pan nad yw plant yn yr ysgol. Fel arfer, caiff cymorth ei ddarparu drwy ysgolion, ac mae llawer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd cefnogi plant gartref oherwydd bod cael mynediad at gymorth yn anoddach.

Cytunodd Tafsila â sylwadau Sarah. Fel mam sydd â nam ar ei golwg i blant sydd heb nam o'r fath, mae addysgu gartref wedi bod yn heriol, yn enwedig o ran ei phlant iau. Er bod yr ysgol wedi bod yn gefnogol, mae hi wedi gorfod dibynnu ar ei phlant hŷn i helpu, yn enwedig wrth ddefnyddio technoleg. Mi allai rhieni anabl fod wedi'u hystyried yn well wrth wneud trefniadau i addysgu gartref.

Cytunodd Sarah, gan fynegi pryder bod pobl yn tybio y bydd ysgolion yn agored yn ôl yr arfer fis Medi, ond mae angen ystyried anghenion plant sydd â nam ar eu golwg nawr. Awgrymodd y dylai paratoadau ganolbwyntio ar lythrennedd digidol a gallu staff i gefnogi myfyrwyr â nam ar eu golwg. Pwysleisiodd y risg y bydd staff yn tybio y byddant yn gallu dychwelyd i ysgolion i gynnig cymorth wyneb i wyneb, heb ddysgu o'r profiad presennol. Mae'n ddigon posibl y bydd angen dysgu'n ddigidol o bell unwaith eto, ac mae'n rhaid manteisio ar y cyfle i baratoi ar gyfer hyn. Mae'n rhaid i ysgolion fod yn hollol barod i gefnogi pobl fel Tafsila a'i theulu yn achos ail gyfnod cloi.

**Cam gweithredu**: Bydd Dai Lloyd, fel Cadeirydd y grŵp, yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i drafod y materion hyn.

## Y model cymdeithasol o anabledd

Soniodd Bablin Molik am y model cymdeithasol o anabledd, a'r ffaith bod pobl anabl yn cael eu gadael ar eu holau er bod nifer o fesurau y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw hynny'n digwydd. Mae'n rhaid i bobl anabl fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau i sicrhau bod y gymdeithas yn parhau'n hygyrch. Pwysleisiodd pa mor bwysig yw hi fod y neges hon yn cael ei rhannu gan Lywodraeth Cymru.

Gan gyfeirio at gyflwyniad Tafsila, nododd Bablin na fydd pobl anabl yn gallu mynd allan i ail-ymgysylltu â chymdeithas wrth i dafarnau a bwytai ddechrau ailagor oherwydd mae popeth wedi newid ac nid yw eu hanghenion wedi'u hystyried.

Gorffennodd Bablin drwy gyfeirio at rôl bwysig Swyddogion Adfer ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg wrth rymuso pobl sydd wedi colli eu golwg i ail-ymgysylltu â chymdeithas yn y 'normal newydd'.

### Ailddylunio ardaloedd trefol

Nodwyd fod RNIB Cymru a Cŵn Tywys Cymru wedi cymryd rhan yn y grwpiau ffocws ar hygyrchedd a gynhaliwyd gan rai awdurdodau lleol i

drafod ailddylunio ardaloedd trefol. Yn dilyn ymgyrch lwyddiannus, mae canllawiau Llywodraeth Cymru, ‘Creu mannau cyhoeddus mwy diogel, bellach yn cynnwys disgwyliadau penodol y dylai awdurdodau lleol gynnwys pobl anabl yn eu gwaith cynllunio, gan gymryd camau i ymateb i unrhyw effeithiau andwyol posibl. Fodd bynnag, caiff yr angen i weithredu’n gyflym i ymateb i’r camau i lacio’r cyfyngiadau ei ddefnyddio’n aml fel esgus i beidio â gweithredu mewn modd cynhwysol a hygyrch. Mae Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn aml yn methu a chynnig camau lliniaru penodol, sy’n golygu bod rhoi adborth ystyrlon yn gallu bod yn heriol.

Nododd Dai Lloyd fod llywodraethau ar bob lefel wedi ymrwymo i’r model cymdeithasol o anabledd, ac awgrymodd y dylid o bosibl eu hatgoffa am yr ymrwymiad hwn.

## Trafnidiaeth gyhoeddus

Nododd Peter Jones fod pobl â nam ar eu golwg yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus a’u bod yn ei chael hi’n anodd ymdopi â’r trefniadau anghyson rhwng gwahanol weithredwyr gwasanaethau. Mae rhai yn atal defnyddio seddi penodol, tra bod eraill yn gostwng capasiti. Er bod Cŵn Tywys Cymru a sefydliadau eraill yn parhau i godi’r mater hwn, mae’r problemau’n parhau, felly awgrymodd Peter y gallai Cadeirydd y grŵp ysgrifennu at y Gweinidog Trafnidiaeth i ddwyn ei sylw at y mater.

Dywedodd Tafsila nad yw’n bosibl iddi ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd oherwydd nid yw’n teimlo’n hyderus wrth deithio ar fws ar ei phen ei hun, gan ei bod yn ofni eistedd yn y man anghywir neu dorri rheolau cadw pellter cymdeithasol.

**Cam gweithredu**: Bydd Dai Lloyd, fel Cadeirydd y grŵp, yn ysgrifennu at y Gweinidog Trafnidiaeth i drafod y materion hyn.

## Gofal llygaid

Nododd Ansley fod y grŵp hwn yn hanesyddol wedi canolbwyntio ar iechyd llygaid. Nododd fod yr holl faterion a godwyd yn ystod y cyfarfod heddiw hefyd yn effeithio ar allu pobl i fynd i’w hapwyntiadau gofal iechyd. Mae pobl yn dal i fod yn ansicr a ddylent fod yn mynd i’w hapwyntiadau ai peidio, ac a yw’n ddiogel iddynt wneud hynny.

Mae angen ystyried cyfathrebu'n well fel bod pobl yn gallu gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch cadw apwyntiadau, gan gynnwys y bobl sy'n destun cyfyngiadau gwarchod.

Mae mynd i apwyntiad yn gorfforol yn rwystr penodol, o ystyried problemau o ran trafnidiaeth gyhoeddus a threfn strydoedd, fel y trafodwyd eisoes. Nodwyd fod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru bellach yn cynnig gwasanaeth i gludo cleifion nad ydynt yn achosion brys, ond mae angen cymryd camau i sicrhau bod pobl ddall a rhannol ddal yn ymwybodol o'r gwasanaeth hwn.

Nododd Fiona Jenkins fod nifer o fyrddau iechyd wedi bod yn cynnal clinigau llygaid brys a chlinigau anafiadau i lygaid mewn clinigau Optometryddion, lle bo hynny'n bosibl. Mae angen cyfathrebu'n well â'r cyhoedd i roi gwybod bod Optometryddion ar y stryd fawr ar gael ar gyfer apwyntiadau o'r fath.

**Toiledau cyhoeddus**
Cododd Esther Weller faterion ynghylch toiledau cyhoeddus, gan ddyfynnu un o ddefnyddwyr gwasanaethau Sight Cymru fel enghraifft. Nid yw llawer o bobl yn teimlo'n hyderus wrth deithio os nad yw toiledau ar agor. Mae'r mater hwn hefyd yn berthnasol wrth i leoliadau lletygarwch ailagor, a dylai unrhyw cyfleusterau dros dro fod yn hygyrch. Fel arall, bydd hyn yn rwystr arall sy'n wynebu pobl anabl.

## Sylwadau i gloi

Wrth ddirwyn y cyfarfod i ben, nododd Ansley fod Fforwm Sight Cymru wedi bod yn cyfarfod yn wythnosol ers dechrau'r cyfnod cloi, ac mae'r materion sy'n wynebu pobl ddall a rhannol ddal wedi newid dros amser. Ar y dechrau, roeddent yn canolbwyntio fel sector ar gadw mewn cysylltiad â phobl fregus. Gwnaeth bron pob sefydliad alwadau llesiant, gan sefydlu grwpiau ffôn, gyda nifer gynyddol o grwpiau'n cael eu sefydlu i gynnal cysylltiadau. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Mae pobl sydd wedi colli eu golwg eisoes yn agored i fod yn unig ac wedi'u hynysu, ac mae'r sefyllfa wedi gwaethygu o ganlyniad i'r realiti ar hyn o bryd. Yn benodol, mae'r newidiadau a wnaed i fannau cyhoeddus a thrafnidiaeth, heb ystyried anghenion pobl ddall a rhannol ddall, yn golygu nad oes terfyn ar y gorwel, ac rydym yn clywed bod pobl ddall a rhannol ddall yn teimlo'n eithaf anobeithiol.

Mae pethau y gallwn eu gwneud i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae gwybodaeth hygyrch, strydoedd hygyrch a thrafnidiaeth hygyrch yn flaenoriaethau, ac mae'r un peth yn wir am fynediad at Swyddogion Adsefydlu.

Cytunodd Dai Lloyd ag Ansley, gan nodi bod cymdeithas sy'n dod allan o gyfyngiadau'r cyfnod cloi yn her newydd ac un nad oes yr un ohonom wedi'i hwynebu o'r blaen. Mae'n anodd tywys cymdeithas allan o'r cyfnod cloi yn ddiogel ac mewn modd sydd wedi'i gydlynu tra'n ymrwymo i'r model cymdeithasol o anabledd, ac mae angen pwysleisio hyn. Fel arall, bydd y pandemig yn cael ei ddefnyddio fel esgus a bydd yr ymdeimlad bod pobl yn cael eu gadael ar eu holau yn parhau.

Cododd Bablin bwynt terfynol ynghylch cyflwr presennol clinigau llygaid. Mae model 'argyfyngau yn unig' wedi bod ar waith ers dechrau'r cyfnod cloi. Mae apwyntiadau nad ydynt yn apwyntiadau brys wedi'u canslo tra bod golwg rhai pobl yn parhau i waethygu. Er bod Sight Cymru wedi parhau i gyfeirio pobl at ymarferwyr sylfaenol, nododd Bablin fod sesiynau sgrinio ac apwyntiadau dilynol yn dal i fod yn hynod bwysig, a bydd pobl yn colli eu golwg oherwydd y sefyllfa bresennol.

Gorffennodd Ansley ar bwynt cadarnhaol, gan rannu'r newyddion da o lawenydd mawr fod Elin Edwards, Rheolwr Materion Allanol RNIB Cymru, sy'n gyfarwydd i bawb yn y grŵp, wedi rhoi genedigaeth i Esme Megan Edwards rai wythnosau yn ôl.

**Cam gweithredu:** Fel Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol, bydd Dai Lloyd yn anfon llythyr ar ran y grŵp i longyfarch Elin.

Diolchodd Dai i bawb am fod yn bresennol, gan ddirwyn y cyfarfod i ben.

Diwedd y ddogfen.